

Llosgi Domestig yng Nghymru

Gwanwyn 2025

Cynnwys

Cynnwys	2
Crynodeb Gweithredol	3
Cefndir	5
Effeithiau lechyd Llosgi Domestig	5
Cyfraniad i ansawdd aer dan do ac yn yr awyr agored yng Nghymru	6
Tueddiadau llosgi yng Nghymru	7
Mae llosgi domestig yn fater cymdeithasol	7
Nid yw llosgi coed yn gyfeillgar i'r amgylchedd	8
Cyd-destun polisi	9
Glo Ty a Phren Gwlyb	9
Mannau Rheoli Mwg	10
Ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r peryglon	11
Argymhellion polisi	12
Cyfeiriadau	13

Crynodeb Gweithredol

Mae llosgi domestig yn un o'r prif gyfranwyr at lygredd aer niweidiol ledled Cymru. Er bod rhai tanwyddau yn fwy niweidiol nag eraill, mae pob un yn rhyddhau tocsinau i'r awyr, sy'n niweidiol i iechyd pobl.

Er gwaethaf ymwybyddiaeth gynyddol o beryglon llygredd aer, mae llawer o bobl yn parhau i fod yn anymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â llosgi domestig, yn enwedig i'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau ysgyfaint, ac i ysgyfaint plant sy'n datblygu. Yn wahanol i fathau eraill o lygredd, mae'n ymddangos yma yng Nghymru, nad yw awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd yn gweld ei fod yn broblem ddifrifol.

Ledled Cymru, rydym ni'n clywed yn rheolaidd gan bobl y mae eu hiechyd a'u bywydau bob dydd yn cael eu heffeithio gan fwg sy'n mynd i mewn i'w heiddo a'u cymunedau. Nid yw'r niwed hwn yn ddamcaniaethol: mae'n real, yn uniongyrchol, ac yn cael ei brofi'n anghymesur gan aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas.

Ledled y DU, mae allyriadau PM_{2.5} o losgi pren fel tanwydd wedi cynyddu 89% ers 2010.¹ Nid oes lefel ddiogel o lygredd aer i anadlu. Mae llygrydd aer yn golygu unrhyw sylwedd yn yr aer a allai niweidio pobl. Mae gronynnau (a elwir yn PM), a nitrogen deuocsid (NO₂) yn arbennig o niweidiol.

Mae hyd yn oed offer "glanach" fel stofiau Eco-dylunio yn cynhyrchu lefelau o PM_{2.5} sy'n peri risgiau annerbyniol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd poblogaeth ddwys. Yn y cyfamser, mae'r defnydd cynyddol o bren fel tanwydd, sy'n aml yn cael ei sbarduno gan ffafriaeth esthetig yn hytrach nag angenrheidiol, yn rhoi straen ychwanegol ar ein gwasanaethau iechyd ac yn tansellio gweithredu ar yr hinsawdd.

Pan fydd pobl yn cael eu hamlygu i lefelau llygredd uchel, er enghraifft wrth ymyl ffordd brysur neu yn ystod episod o lygredd uchel, maen nhw'n yn anadlu'r deunyddiau gwenwynig hyn. Mae nifer yn profi symptomau uniongyrchol fel llwybrau anadlu llidus, diffyg anadl, a pheswch. Mae pobl â chyflwr yr ysgyfaint yn dioddef ymhellach gyda lefelau uchel o lygredd aer. Gall tocsinau waethygu symptomau, achosi pwl asthma neu bwl o COPD.

Llygredd aer yw'r bygythiad amgylcheddol mwyaf i iechyd y cyhoedd, yn ail i ysmegu. Am gost o £1bn y flwyddyn i'n GIG², mae llygredd aer yn draenio ein hadnoddau, yn achosi straen i'n system iechyd ac yn torri'n tua 2000 o fywydau yn fyr bob blwyddyn yng Nghymru³. Mae'n argyfwng iechyd cyhoeddus

Mae gronynnau yn un o'r llygryddion mwyaf peryglus i iechyd pobl. Mae'n gwaethygu cyflyrau'r ysgyfaint fel asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Mae hefyd wedi bod yn gysylltiedig â'r tebygolrwydd cynyddol o ddatblygu cyflyrau'r galon, strôc, problemau iechyd meddwl a dementia.

Dangoswyd bod llygredd aer yn achosi canserau, gydag ymchwil yn dangos bod ar gyfer pob 10 µg/m³ yn fwy o amlygiad i PM_{2.5}, roedd y risg o farw o unrhyw ganser yn codi o 22%.⁴ Os yw eich plentyn yn

¹ Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) (2023). Allyrru Llygryddion aer yn y DU. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/emissions-of-air-pollutants> (cyrchwyd Mawrth 2025).

² Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwneud Gwahaniaeth (2016) phw.nhs.wales/services-and-teams/policy-and-international-health-who-collaborating-centre-on-investment-for-health-well-being/publications-and-resources-bucket/making-a-difference-investing-in-sustainable-health-and-well-being-for-th1/ (Cyrchwyd Ebrill 2025)

³ BBC Cymru, Sut gall Cymru fynd i'r afael â llygredd aer (2017) [Sut gall Cymru fynd i'r afael â llygredd aer? - BBC News](http://www.bbc.com/cymru/health-53444444) cyrchwyd Ebrill 2025

⁴ Turner, M.C. et al. (2016). Risgiau Marwolaethau Canser o Amlygiad Hirdymor i Lygredd Aer Amgylchynol: Results from the

anadlu lefelau uchel o lygredd aer dros gyfnod hir o amser, efallai y byddant mewn perygl o'u hysgyfaint ddim yn gweithio cystal, wrth iddynt dyfu'n hŷn, datblygu asthma yn ystod plentyndod neu fel oedolyn - ac os oes ganddynt asthma eisoes, gall llygredd aer ei wneud yn waeth gyda gwichian, peswch a chanser yr ysgyfaint pan fyddant yn hŷn a thrwy heintiau fel niwmonia.⁵

Rydym ni'n clywed am effaith llosgi domestig ar gyflyrau ysgyfaint bron bob dydd, boed hynny'n fwg o danau gwyllt neu fwg o simneiau cymdogion.

Rydym ni'n argymhell yn gryf bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

1. Cyflwyno ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol i nodi cyngor iechyd clir, gan gynnwys canllawiau penodol i bob cartref sydd â stôf llosgi coed neu dân agored, ochr yn ochr â negeseuon cyffredinol ar effeithiau iechyd llygredd aer.
2. Rhoi gwaharddiad ar waith ar werthu'r tanwyddau mwyaf llygredig fel glo tŷ a phren gwlyb.
3. Cyflwyno cynllun sgrapio ledled y wlad ar gyfer y llosgwyr coed mwyaf aneffeithlon.
4. Deddfu ar gyfer gwiriadau blynyddol tebyg i MOT ar losgwyr coed a stofiau, a gwaharddiad ar stofiau llosgi coed mewn adeiladau newydd.
5. Sefydlu gorsafoedd monitro PM_{2.5} ym mhob cymuned er mwyn i awdurdodau lleol ddadansoddi lefelau PM_{2.5} yn gywir ar draws gwahanol gymdogaethau, nodi poethfannau a rhoi mwy o ymyriadau wedi'u targedu ar waith i leihau lefelau llygredd.
6. Defnyddio data o fonitro cynyddol i gyfathrebu rhybuddion iechyd gyda phobl sy'n byw gyda chyflyrau'r ysgyfaint yn ystod cyfnodau o lygredd aer uwch. Byddai hyn yn cefnogi ysbytai a meddygfeydd yn well i leihau derbyniadau anadlol brys, lleihau derbyniadau i'r ysbyty a lleihau amseroedd aros.
7. Adolygu'r holl reoliadau sy'n cwmpasu Ardaloedd Rheoli Mwg i gefnogi awdurdodau lleol yn well i weithredu a gorfodi SCAs. Ynghyd â monitro gwell, byddai awdurdodau lleol yn gallu monitro ac ymchwilio a rheoli llygredd aer a achosir gan losgi domestig yn well yn ogystal â galluogi gorfodi cryfach i droseddwy'r ailadroddus.
8. Gosod targedau ar gyfer awdurdodau lleol, ynghylch allyriadau PM_{2.5} tebyg i'r rhai ar gyfer ailgylchu.
9. Bod yn llawer mwy uchelgeisiol wrth weithredu 'Aer Iach, Cymru Iach'
10. Ystyried gweithredu Ardal Rheoli Mwg Cymru gyfan i osgoi mannau duon ac i sicrhau bod gan bob cymuned yr amddiffyniadau perthnasol ar ansawdd aer ac iechyd y cyhoedd.

Canadian Census Health and Environment Cohort. Cancer Epidemiology, Biomarkers & Prevention, 25(5), pp.839–845. Ar gael yn: <https://aacrjournals.org/cebpa/article/25/5/839/71066> (cyrchwyd Mawrth 2025).

⁵ Asthma + Lung UK (n.d.). Sut Mae Llygredd Aer Yn Effeithio Ar Ysgyfaint Plant. Ar gael yn: <https://www.asthmaandlung.org.uk/how-your-lungs-work/risks-your-childs-lungs/air-pollution> (cyrchwyd Mawrth 2025).

Cefndir

Effeithiau llosgi domestig ar iechyd

Yn ystod tywydd oerach, mae cynnydd yn aml mewn llosgi domestig ledled Cymru, gyda phobl yn cynnwau tanau a stofiau i gadw eu cartrefi'n gynnes yn y gaeaf. Ychwanegwch at hynny argyfwng costau byw y blynyddoedd diwethaf ac nid yw'n syndod bod rhai yn troi at ffynonellau gwres amgen. Fodd bynnag, nid yw pobl yng Nghymru yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â llosgi tanwydd solet, sy'n costio mwy, yn y tymor hir, na biliau ynni.

Rydym ni'n clywed dro ar ôl tro gan bobl sy'n byw gyda chyflyrau ysgyfaint bod hyn yn cael effaith sylweddol ar iechyd eu hysgyfaint. Mae hyn yn effeithio ar eu gallu i fynd allan, hyd yn oed i'w gerddi ac i adael ffenestri ar agor ar gyfer awyru mawr ei angen, tra bod cymydog yn llosgi pren neu unrhyw fath o danwydd.

Y ddau lygrydd mwyaf peryglus i iechyd pobl yw nitrogen deuocsid (NO₂) a gronynnau (PM₁₀ a PM_{2.5}). Mae llygredd aer yn cael effaith fawr ar iechyd y cyhoedd, ac mae'n gysylltiedig ag amcangyfrif o 2000 o farwolaethau y flwyddyn yng Nghymru⁶ a thua 43,000 o farwolaethau ledled y DU. Amcangyfrifir bod un lle tân sy'n gweithredu am awr ac yn llosgi 10 pwys o bren, yn allyrru 4,300 gwaith yn fwy o hydrocarbonau polyaromatig carcinogenig na 30 sigarét.⁷

Mae ansawdd aer gwael yn gwaethygu asthma a symptomau COPD yn hawdd. Mae hyn yn arwain at bobl yn teimlo'n fwy pryderus am iechyd eu hysgyfaint. Mae hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o dderbyn i'r ysbyty. Mae llygredd aer hefyd wedi'i gysylltu â'r risg uwch o ddatblygu canser yr ysgyfaint, diffygion geni, cyflyrau'r galon, strôc, iechyd meddwl gwael a dementia.

Mater arbennig mân - PM_{2.5}

Beth ydy o?

Gronynnau bach o solet a hylifau yn yr aer, fel baw neu lwch. Cyfeirir ato yn ôl eu diamedr o ran maint, mae gan PM_{2.5} ddiamedr llai na 2.5µm (micron) - 30 gwaith yn llai na gwallt dynol cyfartalog.

Pa mor ddrwg yw hwn?

Gall gronynnau sbarduno pyliau asthma a gwaethygu symptomau i bobl sy'n byw gyda chyflyrau ysgyfaint fel COPD. Gall fynd i mewn i'r ysgyfaint ac i mewn i'r llif gwaed. Mae'n hynod niweidiol i iechyd pobl.

Amcangyfrifir bod 97% o bobl yn y DU yn anadlu lefelau PM_{2.5} uwchlaw'r hyn mae canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn eu hargymhell.

O ble y daw?

Mae crynodiadau PM_{2.5} yn arbennig o ddrwg mewn dinasoedd a threfi mawr. Prif ffynonellau llygredd PM_{2.5} yw hylosgi diwydiannol, hylosgi domestig a thrafnidiaeth ffyrdd.

⁶ Cyfoeth Naturiol Cymru (d.d.). Gwella Ansawdd Ein Aer.

⁷ Teuluoedd ar gyfer Aer Glân (d.d.). Effeithiau Iechyd Mwg Pren. Ar gael yn: <https://www.familiesforcleanair.org/health/health4/> (cyrchwyd Mawrth 2025).

Cyfraniad at ansawdd aer yng Nghymru a'r DU

Yng Nghymru, mae effaith llosgi pren ar iechyd yn ddeublyg: mae'n cynyddu lefelau llygryddion peryglus y tu mewn i'r cartref; ac yn cynyddu lefelau PM_{2.5} amgylchynol yn yr awyr y tu allan, gan effeithio ar y rhai sy'n dewis llosgi coed a'r rhai sy'n digwydd byw, gweithio a chwarae gerllaw.

Er bod y defnydd o danwydd solet fel prif ffynhonnell wres yn gymharol isel yn gyffredinol (gan gyfrif am ddim ond 1% o gartrefi ledled Cymru⁸ a 4% mewn ardaloedd gwledig)⁹, mae llawer o aelwydydd yn defnyddio offer tanwydd solet i ategu systemau gwresogi presennol. Serch hynny, mae'r allyriadau sy'n gysylltiedig â llosgi domestig yn peri risgiau difrifol i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd¹⁰.

Canfu un astudiaeth y gall llosgwyr coed dreblu nifer y llygryddion niweidiol yn y cartref¹¹. Mae un arall wedi canfod bod hyd yn oed stofiau Eco-ddylunio yn allyrru 750 gwaith mwy o lygredd na HGV¹². Er bod union effeithiau stofiau llosgi coed yn cael eu herio gan y Stove Industry Alliance, mae'n amlwg eu bod nhw'n allyrru swm sylweddol o PM_{2.5}, a gwyddom y gall hwn fynd i mewn i'r ysgyfaint ac yna'r llif gwaed ac y gallai niweidio iechyd dynol yn ddifrifol.

Ym mis Ionawr 2022, daeth rheoliadau Ewropeaidd i rym i sicrhau bod yn rhaid i'r holl stofiau llosgi coed, stofiau aml-danwydd a lle tân newydd fodloni canllawiau newydd llym o'r enw Eco-ddylunio. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw rhywun wedi prynu a gosod stôf cyn Ionawr 2022 nad yw'n bodloni'r safonau newydd hyn, yna nid oes rhaid iddynt wneud unrhyw beth gyda'r stôf honno ar hyn o bryd, cyn belled â'u bod yn llosgi tanwyddau cymeradwy.

Mae hyd yn oed pren odynd-sychu a glo di-fwg, sy'n dal i fod yn gyfreithlon i'w llosgi yn y DU, yn allyrru lefelau uchel o PM_{2.5}. Mae'r lefelau hyn yn hynod beryglus i grwpiau agored i niwed fel plant ifanc, yr henoed a'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau ysgyfaint. Mae rhywfaint o bryder hefyd am gemegau eraill y gellir eu rhyddhau trwy'r llosgi neu bren odynd-sychu o ganlyniad i'r triniaethau mae wedi'u profi i sychu. Er bod yr ymchwil academiaidd yn parhau wrth i ni ddysgu mwy bob blwyddyn am yr effaith lawn, mae hyn yn parhau i fod yn achos mawr o bryder i iechyd y cyhoedd. Felly, dylai unrhyw un sydd â chyflwr yr ysgyfaint osgoi llosgi unrhyw beth ar dân agored neu mewn stôf llosgi coed, p'un a yw'n stôf Eco-ddylunio ai peidio.

Ledled y DU, mae llosgi domestig yn ffynhonnell fawr o allyriadau gronynnau, gan gyfrif am 16% o PM₁₀ a 27% o PM_{2.5}¹³. Er cymhariaeth, yn yr un flwyddyn, roedd trafnidiaeth ffyrdd yn cyfrif am 13% yn unig, cyfran yr holl allyriadau sy'n deillio o losgi domestig a bydd yn dod hyd yn oed yn fwy amlwg.

Mae'r defnydd o stofiau coed a thanau agored wedi bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. O ganlyniad, mae lefelau PM_{2.5} o losgi coed domestig wedi cynyddu 35% rhwng 2010 a 2020¹⁴. Mae hyn wedi'i briodoli i duedd gynyddol tuag at losgi coed fel offer cartref moethus, yn hytrach nag oherwydd unrhyw ostyngiad mewn dulliau gwresogi traddodiadol. Fodd bynnag, bu cynnydd o 20% mewn

⁸Llywodraeth Cymru (2018). Arolwg Amodau Tai Cymru 2017–18: Prif Adroddiad (Wedi'i Ddiweddarau).

⁹Ibid.

¹⁰Llywodraeth Cymru (2020). Cynllun Aer Glân Cymru: Aer Iach, Cymru Iach.

¹¹Laville, S. (2020). Llosgwyr Coed yn Treblu Llygredd Aer Niweidiol Dan Do, Yn Ôl Canfyddiadau Astudiaeth. The Guardian, 18 Rhagfyr. Ar gael yn: <https://www.theguardian.com/environment/2020/dec/18/wood-burners-triple-harmful-indoor-air-pollution-study-finds> (cyrchwyd Mawrth 2025).

¹²Air Quality News (2023). Why We Need Transparency in the Wood-Burning Industry. Ar gael yn: <https://airqualitynews.com/news/fuels-news/feature-why-we-need-transparency-in-the-wood-burning-industry/> (cyrchwyd Mawrth 2025).


¹³Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) (2023). Allyriadau PM₁₀ a PM_{2.5} yn y DU. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/emissions-of-air-pollutants/emissions-of-air-pollutants-in-the-uk-particulate-matter-pm10-and-pm25> (cyrchwyd Mawrth 2025).

¹⁴IBID

gwerthiannau stôf llosgi coed o ganlyniad i brisiau nwy cynyddol ledled y DU¹⁵.

Yn ystod misoedd y gaeaf mae'n debygol y bydd cynnydd yn y defnydd o stofiau coed a thanau yn fwyaf tebygol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a chostau nwy a thrydan cynyddol.

Canfu ymchwil Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU (a ddangosir yn y ddelwedd isod) fod stofiau Eco-ddylunio yn cynhyrchu 450 gwaith yn fwy o allyriadau PM2.5 na boeleri nwy¹⁶. Ar gyfer stofiau hŷn, sydd bellach wedi'u gwahardd rhag cael eu gwerthu, mae allyriadau 3,700 gwaith yn fwy na boeler nwy.



Tueddiadau llosgi yng Nghymru

Er gwaethaf ei gyfraniadau mawr at lefelau llygredd aer yn y DU, dim ond 8% o gartrefi sy'n llosgi tanwydd llosgadwy - gan gynnwys pren, glo a biomas¹⁷. Yng Nghymru mae'r ffigwr hwnnw'n 12%, sy'n uwch na chyfartaledd y DU a bron ddwywaith mor uchel â'r Alban.¹⁸

Yn gyffredinol, mae llosgi coed yn tueddu i fod yn fwyaf cyffredin ar draws trefi a dinasoedd, gyda 68% o'r rhai sy'n llosgi coed yn byw mewn ardaloedd trefol y DU¹⁹. Gyda nwy prif gyflenwad yn hygyrch mewn amgylcheddau trefol, mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o bobl sy'n llosgi yn gwneud hynny am ffynhonnell ychwanegol o wres.

¹⁵ Reynolds, M. (2022). Stove Sales Soar as Gas Bills Rocket – but Experts Fear Pollution Will Rise. Daily Mail, 17 Chwefror. Ar gael yn: <https://www.dailymail.co.uk/news/article-10509439/Stove-sales-soar-gas-bills-rocket-experts-fear-increase-add-pollution-levels.htm> (cyrchwyd Mawrth 2025).

¹⁶ Laville, S. (2022). Eco Wood Burners Produce 450 Times More Pollution than Gas Heating, Report Finds. The Guardian, 8 Rhagfyr. Ar gael yn: <https://www.theguardian.com/environment/2022/dec/08/eco-wood-burners-produce-450-times-more-pollution-than-gas-heating-report> (cyrchwyd Mawrth 2025).

¹⁷ Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) (2023). Allyriadau Hylosgi Domestig – Prosiect Ymchwil AQ0828. Ar gael yn: <https://randd.defra.gov.uk/ProjectDetails?ProjectID=20159> (cyrchwyd Mawrth 2025).

¹⁸ IBID

¹⁹ IBID

Mae llosgi domestig yn fater cymdeithasol

Mae llosgwyr coed yn fwyfwy apelgar i'r rhai mwyaf cyfoethog yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Yn yr ardaloedd hyn, mae ffraciwn bychan yn defnyddio stofiau llosgi coed a thanau agored fel eu prif ffynhonnell wres. Mae'n amlwg, i'r mwyafrif helaeth sy'n defnyddio dulliau gwresogi o'r fath mewn ardaloedd trefol, ei fod at ddibenion esthetig.

Yng ngoleuni'r cynnydd mewn prisiau nwy a thrydan hyd yn hyn y degawd hwn, mae aelwydydd llai cyfoethog yng Nghymru yn llai tebygol o feddu ar y modd i ôl-osod lleoedd tân neu brynu llosgwyr coed mwy newydd a mwy effeithlon. Mae'r aelwydydd hyn yn fwy tebygol o brofi mwy o amlygiad i ansawdd aer gwael. Gwyddom bod gan yr ardaloedd gyda'r poblogaethau mwyaf dwys ar draws ein trefi a'n dinasoedd lefelau llawer uwch o PM_{2.5}. Mae'r rhain hefyd yn ardaloedd lle rydym ni'n dod o hyd i'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Felly, mae'n amlwg bod hon yn ardal lle gallai aelwydydd mwy cyfoethog effeithio'n uniongyrchol ar iechyd ac ansawdd bywyd eu cymdogion llai cyfoethog.

Nid yw llosgi pren yn gyfeillgar i'r amgylchedd

Mae stofiau llosgi coed yn cael eu marchnata fwyfwy fel ffurfiau glân, gwyrdd o wresogi domestig, yn enwedig o'u cymharu â gwresogyddion llosgi nwy neu olew. Mae hyn oherwydd nad yw stofiau llosgi coed yn dibynnu ar danwydd ffosil i weithredu a gellir eu dosbarthu fel ffurfiau carbon niwtral o wresogi.

Mae carbon niwtral yn golygu bod carbon deuocsid (CO₂) a ryddhawyd o'r pren pan gaiff ei losgi yn cael ei gydbwyso gan y CO₂ mae'r pren wedi'i amsugno yn ystod ei oes. Mae llosgi coed hefyd yn cael ei ystyried yn adnewyddadwy oherwydd gellir plannu coed newydd ar ôl iddynt gael eu torri i lawr. Fodd bynnag, er bod y ddau beth hyn yn wir, nid yw'n wir bod llosgi coed yn fath o wresogi sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Mae nifer o ystyriaethau sy'n aml yn cael eu hanwybyddu wrth ddadlau dros bren yn danwydd adnewyddadwy, carbon niwtral.

Yn gyntaf, nid yw awgrymu bod llosgi coed yn garbon niwtral yn ystyried yr amserlen sydd ei angen i goed dyfu'n ôl pan gaiff ei dorri i lawr i'w gwresogi - mae llosgi coed yn cyflawni niwtraliaeth carbon yn unig fel ffynhonnell gwresogi yn y tymor hir. Gall gymryd sawl degawd a chanrifoedd hyd yn oed i goedwigoedd ailgyfnewid²⁰.

Yn ail, nid oes gan goed wedi'u hailblannu'r un gallu i ddal carbon â choedwigoedd sy'n frodorol i Gymru a'r DU. Mae ymchwil wedi dangos bod goedwigoedd brodorol yn storio mwy o garbon deuocsid na choedwigoedd wedi'u plannu, daeth un astudiaeth i'r casgliad y byddai'n cymryd 40 i 100 mlynedd i goedwig a reolir ddal yr un faint o garbon â choedwig naturiol²¹. Mae coed sy'n cael eu plannu ar gyfer pelenni pren yn aml yn cael eu torri i lawr o fewn 20 mlynedd, ac nid yw hyn yn ddigon o amser i amsugno'r un faint o garbon ag y maent yn ei allyrru.

Yn drydydd, nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn y DU yn gallu dod o hyd i'w pren o ffynonellau lleol, adnewyddadwy. Y DU yw'r ail fewnforiwr mwyaf o gynhyrchion pren yn y byd²² ac mae mewnfornion pelenni pren, a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer llosgi, wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2019²³. Ni all pren wedi'i fewnforio fod yn garbon niwtral, gan ei fod yn creu allyriadau carbon ychwanegol o

²⁰ ScienceDaily (2018). Air Pollution Linked to Increased Risk of All Cancers. Ar gael yn: <https://www.sciencedaily.com/releases/2018/03/180322140915.htm> (cyrchwyd Mawrth 2025).

²¹ IBID

²² Forest Research (2021). Forestry Statistics 2021. Ar gael yn: <https://www.forestryresearch.gov.uk/tools-and-resources/statistics/forestry-statistics/> (cyrchwyd Mawrth 2025).

²³ IBID

drafnidiaeth, gyda thua 80% yn dod o Ogledd America i'r DU.

Mae torri pren ar gyfer tanwydd yn cael effeithiau amgylcheddol ehangach y tu hwnt i CO₂ sy'n cael ei allyrru i'r atmosffer a dylai, o ganlyniad, gael ei leihau gymaint â phosibl. Mae ecosystemau coedwig yn hanfodol i'n planed a'n hiechyd. Mae datgoedwigo a thorri coed yn arwain at ganlyniadau trychinebus i fioamrywiaeth. Bydd cynnydd yn y galw am bren neu belenni pren yn sbarduno cynaeafu twf hen goedwigoedd biolegol amrywiol, yn aml mewn gwledydd lle mae rheoleiddio amgylcheddol isel. Mae tystiolaeth hefyd wedi dangos llu o ganlyniadau negyddol i iechyd sy'n gysylltiedig â datgoedwigo.

Ar ben hynny, ni ddylid ystyried niwtraliaeth carbon fel y nod ynddo'i hun. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y nod o ostyngiad 100% o leiaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050²⁴. Er y gellid ystyried llosgwyr coed o dan rai amgylchiadau yn garbon niwtral, nid ydynt yn "sero net" gan fod hyn yn cyfeirio at beidio ag allyrru allyriadau CO₂ o'r cychwyn cyntaf. Felly, bydd cynnydd mewn llosgi coed yn tanseilio ein hymdrechion i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050, neu yn wir y targedau interim o ostyngiad o 48% o leiaf mewn allyriadau net erbyn 2030.

Yn olaf, mae llygredd gronynnau (y ddau PM_{2.5} a PM₁₀) ei hun yn helpu i gyflymu chwalu hinsawdd. Gellir cylchredeg gronynnau o amgylch y byd, gan beri iddynt gyrraedd y lleoedd mwyaf anghysbell, gan gynnwys y rhanbarthau pegynol. Pan fydd PM yn glanio ar iâ ac eira mae'n eu tywyllu ychydig, gan arwain at lai o olau haul yn cael ei adlewyrchu i'r gofod, a chyfrannu at gynhesu byd-eang²⁵.

Rydym yn pryderu y gallai Llywodraeth Cymru geisio dibynnu ar losgi coed fel rhan o'i thargedau Sero Net. Fodd bynnag, byddai hyn yn dangos diffyg gweledigaeth ac yn gwrthdaro â'i gyfrifoldeb statudol i ystyried lles cenedlaethau'r dyfodol wrth wneud penderfyniadau.²⁶

Cyd-destun polisi

Mae llosgi coed yn fater iechyd ac amgylcheddol, gan arwain at lefelau cynyddol o PM amgylchynol_{2.5}. Mae dyletswydd i leihau lefelau llosgi coed nid yn unig i amddiffyn y rhai yn eu cartrefi, ond eu cymdogion a chymunedau ehangach hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod o'r blaen nad yw llosgi tanwydd solet yn gydnaws ag amcanion hinsawdd ac aer glân hirdymor²⁷. Yn 2021, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i leihau allyriadau o losgi domestig, gan gynnwys dileu'r broses o werthu glo bitwminaidd (tŷ) a phren gwlyb yn raddol²⁸.

Felly, mae'n rhaid i ni gymryd dull llawer mwy uchelgeisiol ar gyfer iechyd y cyhoedd yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yn unol â chynghor Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer diogelu rhag peryglon amgylcheddol

Er mwyn gwneud hyn, mae angen fframwaith polisi sy'n diogelu iechyd y cyhoedd yn gyntaf. Yng Nghymru, fe wnaethom groesawu pasio Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 yn 2024; fodd bynnag, rydym yn siomedig gyda'r cyflymder araf wrth gyflwyno'r rheoliadau a'r

²⁴ [Polisiau Newid yn yr Hinsawdd - Climate Action Wales](#)

²⁵ Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig (2022). Air Pollution and Climate Change: Two Sides of the Same Coin. Ar gael yn: <https://www.unep.org/news-and-stories/story/air-pollution-and-climate-change-two-sides-same-coin> (cyrchwyd Mawrth 2025).

²⁶ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

²⁷ *Lleihau allyriadau o losgi tanwydd solet domestig – Crynodeb o'r ymatebion* (Llywodraeth Cymru, 2021)

²⁸ *Lleihau allyriadau o losgi tanwydd solet domestig – Crynodeb o'r ymatebion* (Llywodraeth Cymru, 2021)

canllawiau angenrheidiol, nad ydynt wedi bod mor uchelgeisiol ag yr oeddem wedi'i ddisgwyl.

Mae Asthma + Lung UK Cymru yn bartneriaid parod yn yr ymgyrch dros newid polisi, gan gadeirio Aer Iach Cymru a darparu ysgrifenyddiaeth i Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Aer Glân. Rydym yn awyddus i barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r strategaethau uchelgeisiol ac effeithiol sydd eu hangen ar bobl Cymru i anadlu aer glanach.

Glo tŷ a phren gwlyb

Rhaid i bob stôf newydd sydd ar werth yng Nghymru a'r DU fodloni safonau Eco-ddylunio, fel y nodwyd mewn rheoliadau Ewropeaidd ym mis Ionawr 2022²⁹, fodd bynnag, mae'r rhain yn cyfrif am lai na 10% o'r holl stofiau llosgi coed sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn y DU y rhain ac nid oes unrhyw gynlluniau i ôl-osod stofiau presennol³⁰. Nid yw gwelliannau mewn llosgwyr coed a newid technolegol yn ddigon. Rhaid hefyd newid ymddygiad ledled y wlad i symud i ffwrdd oddi wrth lo a phren gwlyb.

Mewn ymgyngoriad gan Lywodraeth Cymru yn 2023, dadleuodd ymatebwyr fod caniatáu gwerthu pren 'tymhorol' neu sych yn unig yn arwain at allyriadau pellach³¹. Fodd bynnag, mae hyn yn diystyru'n llwyr effaith iechyd y cyhoedd o losgi pren gwlyb.

Fodd bynnag, roedd cytundeb eang y gallai cyfyngu ar werthu pren gwlyb gael effaith sylweddol ar leihau allyriadau hylosgi domestig³². Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at bwysigrwyd tymhorau a storio'n briodol a galwodd am gynllun ardystio i sicrhau ansawdd pren sy'n cael ei werthu i aelwydydd. Roedd cefnogaeth gref hefyd i ymgyrch ymwybyddiaeth i addysgu manwerthwyr a defnyddwyr ar arferion gorau ar gyfer storio a llosgi pren³³.

Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgyngoriad yn cefnogi cael gwared ar lo tŷ yn raddol, gan nodi'r lefelau uchel o ronynnau mân a allyrrir a'r niwed iechyd cysylltiedig. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflwyno rheoliadau i wahardd gwerthu glo tŷ bitwminiadd, gan gefnogi aer glanach yn enwedig mewn ardaloedd trefol³⁴. Fodd bynnag, mynegodd ymatebwyr bryder hefyd am fforddiadwyedd, canlyniadau anfwriadol fel mwy o losgi coed, a'r angen i ystyried anghenion penodol cartrefi gwledig a thanwydd-dlawd³⁵.

Er bod y mesurau hyn yn debygol o leihau lefelau PM_{2.5}, mae perygl iddynt fod yn aneffeithiol heb orfodi effeithlon. Mae glo tŷ yn rhyddhau ychydig o dan 5 gwaith mwy o PM_{2.5} na glo di-fwg, a phren gwlyb yn rhyddhau 4 gwaith mwy o PM_{2.5} na phren sych. Waeth beth fo'r ymyriadau i gyfyngu allyriadau PM_{2.5}, rhaid cofio bod hylosgi domestig ym mhob ffurf yn hynod beryglus i iechyd pobl, gan nad oes lefel ddiogel o lygredd aer i anadlu. Mae'n amlwg bod amlygiad i unrhyw lefel o PM_{2.5} o losgi coed yn debygol o achosi niwed i iechyd pobl, p'un a yw'r pren hwnnw wedi'i odynd-sychu ai peidio.

Mae perygl y bydd caniatáu i rai mathau o bren gael eu llosgi mewn stofiau Eco-dylunio penodol yn hyrwyddo'r syniad bod y rhain yn ffyrdd diogel o losgi tanwydd yn y cartref. Nid yw hyn yn wir. Gwyddom nad oes lefel ddiogel o lygredd aer, a gallai polisiâu o'r fath danseilio ymdrechion llywodraethau i gyfathrebu pwysigrwyd lleihau llygredd aer am resymau iechyd cyhoeddus ac

²⁹ Clean Air London (2022). Implementation of Ecodesign Regulations from 1 January 2022. Ar gael yn: <https://cleanair.london/policy/implementation-of-ecodesign-regulations-from-1-january-2022-is-an-important-step-on-the-path-to-banning-wood-burning> (cyrchwyd Mawrth 2025).

³⁰ Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) (2023). Allyriadau Hylosgi Domestig – Prosiect Ymchwil AQ0828. Ar gael yn: <https://randd.defra.gov.uk/ProjectDetails?ProjectID=20159> (cyrchwyd Mawrth 2025).

³¹ Lleihau allyriadau o losgi tanwydd solet domestig – Crynodeb o'r ymatebion (Llywodraeth Cymru, 2021)

³² *IBID*

³³ *IBID*

³⁴ *IBID*

³⁵ *IBID*

amgylcheddol.

Ardaloedd Rheoli Mwg

Wedi'u cyflwyno gyntaf fel rhan o Ddeddf Aer Glân 1993³⁶ mae ardaloedd rheoli mwg yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon allyrru mwg o simneiau oni bai eu bod wedi'u heithrio rhag defnyddio tanwydd awdurdodedig. Yng Nghymru, dim ond pedwar allan o 22 awdurdod lleol sy'n cynnwys parthau rheoli mwg. Mae pob un o'r parthau hyn mewn ardaloedd trefol, gyda'r mwyafrif yn cwmpasu ardaloedd hynod fach o drefi a dinasoedd. Gellir dod o hyd iddynt yn Sir y Fflint, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam yn unig.

Mewn cyferbyniad, mae Ardaloedd Rheoli Mwg yn Lloegr yn llawer mwy eang, gyda Manceinion cyfan wedi'i ddynodi fel SCA ers 1985, tra bod y mwyafrif helaeth o fwrdeistrefi Llundain, Birmingham, Caerfaddon, Bryste, Lerpwl, Hull a Rhydychen hefyd yn SCAs yn eu cyfanrwydd.

Drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, mae Asthma + Lung UK Cymru wedi canfod rhwng 2020 a 2024, na fu cwynion am dorri'r cyfyngiadau hyn ac o ganlyniad nid oes unrhyw gamau wedi'u cymryd. Nid yw hyn yn syndod o ystyried maint bach yr ardaloedd hyn, y diffyg cyhoeddusrwydd a gradd y goddefgarwch yn y cyfyngiadau.

Nid yw ardaloedd rheoli mwg yn addas i'r diben yng Nghymru. Maen nhw'n cwmpasu ardaloedd cyfyngedig ac yn caniatáu rhestr hir o danwyddau awdurdodedig, pob un ohonynt yn hynod niweidiol i iechyd y cyhoedd.

Ar ddiwedd 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i'w chanllawiau rheoli mwg newydd³⁷. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau newydd yn annog cynghorau i sefydlu unrhyw barthau rheoli mwg pellach ac nid yw'n gwneud unrhyw beth i bwysleisio peryglon llosgi coed, yn enwedig fel ffynhonnell wres eilaidd, diangen.

O ystyried y duedd bryderus am i fyny yn y math hwn o losgi coed, rydym yn siomedig gyda diffyg gweithredu Llywodraeth Cymru i amddiffyn ysgyfaint Cymru.

Ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r peryglon

Mae Asthma + Lung UK Cymru wedi bod yn galw am fwy o addysg ynghylch y peryglon sy'n gysylltiedig â llygredd aer, yn ogystal â'r peryglon penodol y gall llosgi domestig eu hachosi i bobl ag asthma a chyflyrau eraill ar yr ysgyfaint.

Yng Nghymru mae diffyg ymwybyddiaeth amlwg o beryglon llygredd aer. Mewn arolwg diweddar, er bod dros 60% o'n cefnogwyr yn poeni am iechyd anadlol eu teuluoedd, a dros hanner yn pryderu am ansawdd aer yn eu hardal leol, roedd llai na hanner ohonynt yn pryderu am y cynnydd yn y defnydd o stofiau llosgi coed.³⁸

Dim ond un rhan o'r ateb yw rheoleiddio. Mae mentrau newid ymddygiad yn cael eu hystyried yn hanfodol wrth leihau dibyniaeth ar losgi tanwydd solet domestig. Dylai ymgyrchoedd addysg ganolbwyntio ar effeithiau llygredd aer ar iechyd—yn enwedig ansawdd aer dan do—a hyrwyddo mabwysiadu tanwyddau ac offer llai llygredig. Mae yna hefyd le i archwilio cymhellion ariannol i gefnogi aelwydydd i symud i ffrwd o'r defnydd o danwydd solet, yn enwedig mewn ardaloedd yr effeithir

³⁶Llywodraeth Cymru (n.d.) Canllawiau Rheoli Mwg.

³⁷ IBID

³⁸ Asthma + Lung UK Cymru, Arolwg Opinion Matters 2024

arnynt gan dlodi tanwydd³⁹.

Pan ddaw i losgi domestig, nid oes digon o wybodaeth am y peryglon posibl i'r unigolion sy'n llosgi coed y tu mewn a hefyd i eraill gerllaw.

³⁹Ymateb i ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi'i ddyfynnu yn *Crynodeb o'r Ymgynghoriad Tanwydd Solet Domestig*, 2021

Argymhellion polisi

1. Cyflwyno ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol i nodi cyngor iechyd clir, gan gynnwys canllawiau penodol i bob cartref sydd â stôf llosgi coed neu dân agored, ochr yn ochr â negeseuon cyffredinol ar effeithiau iechyd llygredd aer.
2. Rhoi gwaharddiad ar waith ar werthu'r tanwyddau mwyaf llygredig fel glo tŷ a phren gwlyb.
3. Cyflwyno cynllun sgrapio ledled y wlad ar gyfer y llosgwyr coed mwyaf aneffeithlon.
4. Deddfu ar gyfer gwiriadau blynyddol tebyg i MOT ar losgwyr coed a stofiau, a gwaharddiad ar stofiau llosgi coed mewn adeiladau newydd.
5. Sefydlu gorsafoedd monitro $PM_{2.5}$ ym mhob cymuned er mwyn i awdurdodau lleol ddadansoddi lefelau $PM_{2.5}$ yn gywir ar draws gwahanol gymdogaethau, nodi poethfannau a rhoi mwy o ymyriadau wedi'u targedu ar waith i leihau lefelau llygredd.
6. Defnyddio data o fonitro cynyddol i gyfathrebu rhybuddion iechyd gyda phobl sy'n byw gyda chyflyrau'r ysgyfaint yn ystod cyfnodau o lygredd aer uwch. Byddai hyn yn cefnogi ysbytai a meddygfeydd yn well i leihau derbyniadau anadlol brys, lleihau derbyniadau i'r ysbyty a lleihau amseroedd aros.
7. Adolygu'r holl ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu Ardaloedd Rheoli Mwg i gefnogi awdurdodau lleol yn well i weithredu a gorfodi SCAs. Ynghyd â monitro gwell, byddai awdurdodau lleol yn gallu monitro ac ymchwilio a rheoli llygredd aer a achosir gan losgi domestig yn well yn ogystal â galluogi gorfodi cryfach i droseddwy'r ailadroddus.
8. Gosod targedau ar gyfer awdurdodau lleol, ynghylch allyriadau $PM_{2.5}$ tebyg i'r rhai ar gyfer ailgylchu.
9. Bod yn llawer mwy uchelgeisiol wrth weithredu Aer Iach, Cymru Iach
10. Ystyried gweithredu Ardal Rheoli Mwg Cymru gyfan i osgoi mannau duon ac i sicrhau bod gan bob cymuned yr amddiffyniadau perthnasol ar ansawdd aer ac iechyd y cyhoedd.

Cyfeiriadau

1. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) (2023). *Allyrru Llygryddion aer yn y DU*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/emissions-of-air-pollutants> (cyrchwyd Mawrth 2025).
2. Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016. *Gwneud Gwahaniaeth*. Ar gael yn: <https://phw.nhs.wales/services-and-teams/policy-and-international-health-who-collaborating-centre-on-investment-for-health-well-being/publications-and-resources-bucket/making-a-difference-investing-in-sustainable-health-and-well-being-for-th1/> (cyrchwyd Ebrill 2025).
3. BBC Wales (2017). *Sut Gall Cymru Fynd i'r Afael â Llygredd Aer?* Ar gael yn: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-39486190> (cyrchwyd Ebrill 2025).
4. Turner, M.C. et al. (2016). *Cancer Mortality Risks from Long-term Exposure to Ambient Air Pollution: Results from the Canadian Census Health and Environment Cohort*. *Cancer Epidemiology, Biomarkers & Prevention*, 25(5), pp.839–845. Ar gael yn: <https://aacrjournals.org/ceb/article/25/5/839/71066> (cyrchwyd Mawrth 2025).
5. Asthma + Lung UK (n.d.). *Sut Mae Llygredd Aer Yn Effeithio Ar Ysgyfaint Plant*. Ar gael yn: <https://www.asthmaandlung.org.uk/how-your-lungs-work/risks-your-childs-lungs/air-pollution> (cyrchwyd Mawrth 2025).
6. Cyfoeth Naturiol Cymru (d.d.). *Gwella Ansawdd Ein Aer*.
7. Teuluoedd ar gyfer Aer Glân (d.d.). *Effeithiau Iechyd Mwg Pren*. Ar gael yn: <https://www.familiesforcleanair.org/health/health4/> (cyrchwyd Mawrth 2025).
8. Llywodraeth Cymru (2018). *Arolwg Amodau Tai Cymru 2017–18: Prif Adroddiad (wedi'i ddiweddarau)*.
9. Ibid.
10. Llywodraeth Cymru (2020). *Cynllun Aer Glân Cymru: Aer Iach, Cymru Iach*.
11. Laville, S. (2020). *Llosgwyr Coed yn Treblu Llygredd Aer Niweidiol Dan Do, Yn Ôl Canfyddiadau Astudiaeth*. *The Guardian*, 18 Rhagfyr. Ar gael yn: <https://www.theguardian.com/environment/2020/dec/18/wood-burners-triple-harmful-indoor-air-pollution-study-finds> (cyrchwyd Mawrth 2025).
12. Air Quality News (2023). *Why We Need Transparency in the Wood-Burning Industry*. Ar gael yn: <https://airqualitynews.com/news/fuels-news/feature-why-we-need-transparency-in-the-wood-burning-industry/> (cyrchwyd Mawrth 2025).
13. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) (2023). *Allyriadau PM10 a PM2.5 yn y DU*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/emissions-of-air-pollutants/emissions-of-air-pollutants-in-the-uk-particulate-matter-pm10-and-pm25> (cyrchwyd Mawrth 2025).
14. Ibid.
15. Reynolds, M. (2022). *Stove Sales Soar as Gas Bills Rocket – but Experts Fear Pollution Will Rise*. *Daily Mail*, 17 Chwefror. Ar gael yn: <https://www.dailymail.co.uk/news/article-10509439/Stove-sales-soar-gas-bills-rocket-experts-fear-increase-add-pollution-levels.htm> (cyrchwyd Mawrth 2025).
16. Laville, S. (2022). *Eco Wood Burners Produce 450 Times More Pollution than Gas Heating, Report Finds*. *The Guardian*, 8 Rhagfyr. Ar gael yn: <https://www.theguardian.com/environment/2022/dec/08/eco-wood-burners-produce-450-times-more-pollution-than-gas-heating-report> (cyrchwyd Mawrth 2025).

17. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) (2023). *Allyriadau Hylosgi Domestig – Prosiect Ymchwil AQ0828*. Ar gael yn: <https://randd.defra.gov.uk/ProjectDetails?ProjectID=20159> (cyrchwyd Mawrth 2025).
18. Ibid.
19. Ibid.
20. ScienceDaily (2018). *Air Pollution Linked to Increased Risk of All Cancers*. Ar gael yn: <https://www.sciencedaily.com/releases/2018/03/180322140915.htm> (cyrchwyd Mawrth 2025).
21. Ibid.
22. Forest Research (2021). *Forestry Statistics 2021*. Ar gael yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/tools-and-resources/statistics/forestry-statistics/> (cyrchwyd Mawrth 2025).
23. Ibid.
24. Polisiâu Newid yn yr Hinsawdd - *Climate Action Wales*.
25. Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig (2022). *Air Pollution and Climate Change: Two Sides of the Same Coin*. Ar gael yn: <https://www.unep.org/news-and-stories/story/air-pollution-and-climate-change-two-sides-same-coin> (cyrchwyd Mawrth 2025).
26. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015). *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*.
27. Llywodraeth Cymru (2021). *Lleihau Allyriadau o Losgi Tanwydd Solet Domestig – Crynodeb o'r Ymatebion*.
28. Ibid.
29. Clean Air London (2022). *Implementation of Ecodesign Regulations from 1 January 2022*. Ar gael yn: <https://cleanair.london/policy/implementation-of-ecodesign-regulations-from-1-january-2022-is-an-important-step-on-the-path-to-banning-wood-burning> (cyrchwyd Mawrth 2025).
30. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) (2023). *Allyriadau Hylosgi Domestig – Prosiect Ymchwil AQ0828*. Ar gael yn: <https://randd.defra.gov.uk/ProjectDetails?ProjectID=20159> (cyrchwyd Mawrth 2025).
31. Llywodraeth Cymru (2021). *Lleihau Allyriadau o Losgi Tanwydd Solet Domestig – Crynodeb o'r Ymatebion*.
32. Ibid.
33. Ibid.
34. Ibid.
35. Ibid.
36. Llywodraeth Cymru (n.d.) *Canllawiau Rheoli Mwg*.
37. Ibid.
38. Asthma + Lung UK Cymru (2024). *Arolwg Opinion Matters 2024*.
39. Cyfoeth Naturiol Cymru. *Ymateb i'r Ymgynghoriad, wedi'i ddyfynnu yn Crynodeb o'r Ymgynghoriad Tanwydd Solet Domestig (2021)*

Asthma + Lung UK Cymru

The White Chapel Building


10 Whitechapel High St

Llundain, E1 8QS

0300 222 5800

wales@asthmaandlung.org.uk

asthmaandlung.org.uk/wales



ASTHMA+
LUNG UK
CYMRU

Mae Asthma and Lung UK yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant gyda rhif cofrestru cwmni 01863614, gyda'r rhif elusen gofrestredig 326730 yng Nghymru a Lloegr, SC038415 yn yr Alban, a 1177 yn Ynys Manaw.